# Arwain 2021

Prifysgol Abertawe
Swansea University



# ‘Sefyll gyda’n chwiorydd ar draws y byd’

“Ni yw ieuenctid Cymru yn sefyll gyda’n chwiorydd ar draws y byd” oedd datganiad myfyrwyr o Brifysgol Abertawe wrth iddyn nhw gael eu dewis i gyflwyno neges Heddwch ac Ewyllys Da’r Urdd 2021.

Dyma’r tro cyntaf i’r Urdd gydweithio â phrifysgol ar y neges ryngwladol, sydd yn gant oed y flwyddyn nesaf ac, os bydd rheoliadau’r pandemig yn caniatáu, y gobaith yw y bydd rhai o’r myfyrwyr yn cael teithio i Efrog Newydd ar gyfer digwyddiad yn adeilad UN Women yn yr hydref.

“Roedd yn fraint o’r mwyaf i’r Urdd ddewis myfyrwyr Abertawe,” meddai Dr Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi. “Cafodd y myfyrwyr lawer o brofiadau a budd wrth ddod ynghyd i drafod y thema eleni, a dysgu mwy am brofiadau a safbwyntiau ei gilydd ac eraill ledled y byd.

“Wrth i’n to ifanc brofi cyfnod mor heriol yn ddiweddar, roedd llunio’r neges yn gyfle iddyn nhw feithrin hyder a chodi’u golygon i ysbrydoli eraill – rydyn ni’n ddiolchgar iawn i’r Urdd am roi’r cyfle iddyn nhw.”

Bu’r 21 o fyfyrwyr yn dilyn gweithdai o dan ofal y bardd a’r awdur Llio Maddocks a Gwennan Mair o Theatr Clwyd wrth baratoi’r neges unigryw sydd wedi ei hanfon yn ddi-dor ers 1922, er gwaetha pob rhyfel ac argyfwng a thrwy wahanol ddulliau – o Morse Code i radio i’r We.

Cyfieithwyd y Neges eleni i 65 iaith ac fe’i rhannwyd ar draws 59 o wledydd a chofnodi cyrhaeddiad cyfryngau cymdeithasol o dros 400 miliwn. Yn ogystal, denwyd cefnogaeth gan lu o sefydliadau a ffigurau dylanwadol, gan gynnwys UN Women, Hillary Clinton, Michael Sheen, ac yn bwysicach na dim, filoedd o ddisgyblion ysgolion ar hyd a lled Cymru a’r byd – y genhedlaeth nesaf all wneud gwahaniaeth.

Mae cyfraniad y Neges hefyd wedi’i chydnabod gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru ac Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, wrth i’r Urdd a’r myfyrwyr dderbyn Gwobr Heddychwyr Digidol Ifanc y Flwyddyn a rhannu’r Wobr Heddychwyr Ifanc y Flwyddyn ar gyfer 2021.

Meddai’r Athro Elwen Evans, CF, Dirprwy Is-Ganghellor, “Rwy’n hynod falch o’r Neges sydd wedi’i llunio gan ein myfyrwyr. Mae’n cydfynd yn glir â’r math o waith mae Prifysgol Abertawe wedi bod yn ei gyflawni yn y maes hwn ac roedd yn dda gallu tynnu ar ein cysylltiadau rhyngwladol gwych er mwyn hyrwyddo’r Neges ar ran ieuenctid Cymru.”


# Profiad i'w gofio, meddai'r myfyrwyr



"Roedd cyfrannu at y gwaith o lunio'r Neges Heddwch yn brofiad anhygoel, yn enwedig gallu cydweithio a thrafod gyda phobl ysbrydoledig sy'n awyddus i wneud gwahaniaeth. Dw i wedi elwa o'r profiad yn fawr, yn enwedig wrth i'r holl gyfranwyr rannu syniadau am sut y gallwn ni wneud gwahaniaeth yn ein cymunedau ac yn ehangach." **Alpha Evans** o Lanbedr Pont Steffan, sy'n astudio Cymraeg yn y Brifysgol.

"Mae'r profiad wedi fy ysbrydoli i anelu'n uchel, boed hynny ar gyfer swyddi uchelgeisiol neu yn fy mywyd personol. Roedd hi'n dda cael ystyried y profiad o fod yn fenyw, yr heriau ond hefyd y pethau ysbrydoledig. Rwy'n teimlo'n falch o fod yn fenyw ac o fod yn rhan o'r genhedlaeth bwerus hon." **Katie Phillips** o Ferthyr Tudful, Llywydd Undeb y Myfyrwyr





"Rwy'n credu'n gryf yng ngrym a gallu menywod i feddiannu lleoedd na chawsant erioed eu cynllunio ar ein cyfer, a gwneud newidiadau effeithiol yn ein byd heddiw. Byddaf yn dal ati i hyrwyddo hanfod neges yr Urdd eleni, i gefnogi menywod, a mynd ati i godi llais yn erbyn anghyfiawnder." **Theresa Ogbekhiulu** o Nigeria, Swyddog Addysg Undeb y Myfyrwyr.



"Fe wnes i fwynhau'r broses o gyfrannu at lunio'r Neges gan gwrdd â phobl newydd, clywed am eu profiadau ac fe ddysgais i gymaint wrth bawb. Dw i'n ymrwymo i fod yn llais dros y rheini sy'n wynebu anghydraddoldeb neu anghyfiawnderau ac yn ei gweld hi'n anodd i sefyll lan dros eu hunain ar y pryd." **Shannon Rowlands** o Gastellnewydd Emlyn, MB BCh Meddygaeth i Raddedigion.

"Mae'r profiad wedi bod yn un bendigedig. Dwi'n hynod o ddiolchgar i'r holl fenywod a deimlodd yn gyfforddus i rannu profiadau a storïau personol yn fy nghwmni. Rwy' wedi ymrwymo i barhau i wrando ar fenywod ac addysgu fy hunan er mwyn parhau i siarad allan yn erbyn anghydraddoldeb rhyw. Dwi hefyd am geisio dylanwadu ar ddynion a phwysleisio ei bod hi yn bosibl i fod yn ddyn sy'n ffeminist ac sy'n cefnogi hawliau menywod." **Tom Kemp** o Bontypridd, BSc Daearyddiaeth.



"Ro'n i'n awyddus i elwa ar y cyfle hwn i fod yn rhan o ymgyrch sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghyfiawnder cymdeithasol yn erbyn menywod a cheisio eu grymuso i sicrhau dyfodol mwy cyfartal. Drwy gyfrannu i'r Neges dw i wedi dod yn fwy hyddysg am y pwnc ac am ffyrdd i weithredu er mwyn sicrhau mwy o amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer y genhedlaeth nesaf o arweinwyr, arloeswyr, a dinasyddion y byd." **Daniel Hall-Jones**, Pencader, BSc Rheolaeth Busnes.





"Mae'n bwysig iawn annog ieuenctid y byd i ddeall a galw am gydraddoldeb gan ei fod yn effeithio ar bawb o bob cenedl, diwylliant a hunaniaeth. Roedd y pwnc yn plethu'n hyfryd gyda fy astudiaethau. Mae'r profiad o gyfrannu at y neges wedi dangos i mi fod fy llais yn werthfawr a gallaf ei defnyddio i wneud newid cadarnhaol mewn cymdeithas." **Marged Ann Smith** o Rhydargaeau, MA Datblygu a Hawliau Dynol.

Cydraddoldeb i Ferched
Equality for Women & Girls

# Troi gofid yn obaith – effaith Covid ar y Gymraeg



'Gofid neu Gyfle?' oedd testun cynhadledd undydd a gafodd ei chynnal gan Academi Hywel Teifi ym mis Mawrth i ystyried effeithiau tebygol Covid-19 ar sefyllfa'r Gymraeg.

Fe fu siaradwyr y gynhadledd rithwir yn trafod effaith y pandemig ar bob math o feysydd, gan gynnwys addysg, technoleg, gwaith cymunedol a mannau gwaith.

"Nod y gynhadledd oedd ceisio rhannu gwersi, arferion da a chamau cadarn y gallwn ni eu cymryd er mwyn rhoi gwydnwch pellach wrth gynllunio ar gyfer dyfodol y Gymraeg," meddai Dr Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi.


"Y peth pwysig oedd rhoi cyfle i'r sefyllfa gael ei hystyried o ddifrif ac, wrth wneud hynny, roedd rhai effeithiau cadarnhaol yn dod i'r amlwg, er enghraifft wrth glywed am sut y mae technoleg wedi caniatáu i bobl fanteisio ar gyfleoedd i ymwneud â'r Gymraeg o'r newydd.

"Daeth dros 120 o gynadleddwyr ynghyd a bu'r trafodaethau yn adeiladol iawn. Hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd ran am eu cyfraniadau gwerthfawr ac am rannu eu syniadau ar sut i droi'r gofid yn obaith."

Gall gymryd rhai blynyddoedd cyn y byddwn yn sylweddoli llawn effaith y pandemig ar y Gymraeg, ym marn un o'r prif siaradwyr, Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg.

"Dydi'r darlun cyflawn ddim gynnon ni oherwydd mae'r dystiolaeth yn dameidiog ar hyn o bryd," meddai. "Mae'n holl bwysig ein bod yn parhau i gasglu a dadansoddi gan gadw golwg ar y tymor hir. Rhaid sicrhau hefyd bod y llywodraeth yn ystyried natur yr effaith wrth geisio gwireddu amcanion Cymraeg 2050."

Mewn ymdrech i sicrhau bod y trafodaethau adeiladol a dadlennol a gynhaliwyd yn cael eu clywed ar raddfa ehangach a'u hystyried er mwyn sicrhau newidiadau all warchod yr iaith mewn cyd-destunau megis pandemig a'i effeithiau, mae'r Academi wedi rhyddhau recordiadau o'r holl sesiynau ar ei gwefan. Mae hefyd wedi llunio adroddiad sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer llywodraeth newydd Cymru ac awdurdodau lleol, ynghyd â chamau nesaf y gallai cynadleddwyr a chefnogwyr y Gymraeg eu gweithredu.





# Chwilio am atebion i argyfwng iaith yn y Gymru Gymraeg

Mae adroddiad a gafodd ei gyd-gomisiynu gan Academi Hywel Teifi yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag argyfwng ail gartrefi yng Nghymru er mwyn diogelu cymunedau Cymraeg.

Dr Simon Brooks, Athro Cyswllt yn Ysgol Reolaeth Prifysgol Abertawe, yw awdur yr adroddiad **Ail Gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru**, sy'n cyflwyno 12 o argymhellion polisi i'r Llywodraeth.

Cafodd ei gomisiynu wedi i Academi Hywel Teifi dderbyn grant gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ond, yn sgil diddordeb gwleidyddol cynyddol yn y pwnc, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r ymchwil gael ei ehangu a chynnwys argymhellion.

Mae'r adroddiad terfynol yn trafod effeithiau Brexit a'r pandemig, ac effaith ail gartrefi ar ddyfodol cymunedau a'r Gymraeg.




Problem ranbarthol yn hytrach na chenedlaethol yw ail gartrefi, yn ôl Simon Brooks, ac mae angen atebion polisi cyhoeddus ar y lefel honno.

"Dylai Llywodraeth Cymru ganiatáu amrywiadau polisi oddi mewn i fframwaith cenedlaethol, a fydd yn ddigon hyblyg fel bod modd eu gweithredu mewn gwahanol ffyrdd yn ôl anghenion rhanbarthol a lleol," meddai yn yr adroddiad.

Ymysg y mesurau penodol mae'n eu hargymell mae:

- codi premiwm y dreth cyngor lleol ar ail gartrefi i 100%
- gosod amodau marchnad leol ar dai newydd mewn rhai cymunedau
- treialu cael caniatâd cynllunio cyn troi tŷ annedd yn ail gartref

Gan fod llawer o'r ardaloedd hyn ymhlith cadarnleoedd y Gymraeg, mae'r adroddiad yn galw'n benodol ar Lywodraeth Cymru i sefydlu comisiwn i wneud argymhellion am ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol.

"Mae'r broblem ail gartrefi yng Nghymru yn effeithio ar bedwar cyngor yn fwy na'r un arall, a thri ohonyn nhw yn rhan o'r 'graidd' y Gymru Gymraeg draddodiadol," meddai Dr Brooks.

"Mae'n briodol felly fod Llywodraeth Cymru yn ystyried ail gartrefi fel problem o bwys o safbwynt cynllunio ieithyddol.

"Ond bydd angen polisïau newydd mewn llawer iawn mwy o feysydd nag ail gartrefi yn unig os yw cymunedau Cymraeg am gael eu sefydlogi dros y ddegawd neu ddau nesaf.

"Gallai holl ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol mewn rhannau eang o'r wlad fod yn y fantol."







# Lle mae gwyddoniaeth yn dod yn fyw

"Gwneud i wyddoniaeth ddod yn fyw" yw addewid Oriel Science Prifysgol Abertawe, a ailagorodd ddiwedd mis Mai mewn cartref newydd yn Stryd y Castell yng nghanol y ddinas.

Yno, rhwng 10am a 4pm bob penwythnos ac yn ystod gwyliau'r ysgol, bydd cyfle i ymwelwyr o bob oed ddarganfod rhyfeddodau'r gwaith ymchwil sy'n cael ei wneud ym Mhrifysgol Abertawe, a hynny trwy arddangosfeydd, gweithdai a sgyrsiau.

Yn 2016-17, mewn safle dros dro, denodd yr Oriel bron 16,000 o ymwelwyr a mwy na mil o blant mewn 100 niwrnod – y gobaith yw y bydd y safle newydd yn fwy poblogaidd fyth.

Bydd yn agor gyda dwy arddangosfa, sef 'Symud a Mudiant' ac 'Ymateb Prifysgol Abertawe i Covid-19' – y naill yn dangos sut mae rhewlifoedd yn ymchwyddo yn yr Arctig, sut y gall seinyddion uwchsonig achosi i ronynnau esgyn i'r awyr, a beth yw hyd breichiau pobl o gymharu ag adenydd condor, a'r llall yn dangos sut y mae myfyrwyr a staff ymchwil y Brifysgol wedi helpu'r gymuned leol a gweithwyr rheng flaen i ymateb i'r pandemig.

"Mae agor lleoliad newydd Oriel Science yng nghanol y ddinas yn ddigwyddiad pwysig, yn enwedig yn ystod y flwyddyn anodd iawn hon," meddai'r Athro Martin Stringer, Dirprwy Is-ganghellor Prifysgol Abertawe.





## Ysbrydoli yn EisteddfodT

GwyddonLe oedd un o atyniadau mwyaf poblogaidd Eisteddfod-T yr Urdd eleni eto, gyda chyfres o ddigwyddiadau byw, adnoddau a fideos difyr i'r teulu cyfan dan nawdd Academi Hywel Teifi.

Mewn fideos a gafodd eu creu gan staff a myfyrwyr y Brifysgol, cafodd plant a phobl ifanc gyfle i wneud amrywiaeth o arbrofion gartref mewn pob math o feysydd gwahanol, o ddeall planhigion i adeiladu batris, o feistroli mathemateg i ailgreu ffrwydriad llosgfynyddoedd a dysgu am y corff a'r meddwl dynol.

Manteisiodd 54 o blant ar y cyfle hefyd i gymryd rhan yng nghystadleuaeth y GwyddonLe trwy anfon fideo ohonyn nhw eu hunain yn cynnal arbrawf gwyddonol a'r enillydd oedd Non Enlli Dafydd, o Ysgol Bro Gwydir, Llanrwst.

"Roedd yn bleser cael cymaint o fideos o ansawdd uchel a diolch i'r holl gystadleuwyr am eu hymdrechion," meddai'r beirniad Dr Alwena Morgan o Ysgol Feddygaeth y Brifysgol.

Meddai Saran Thomas, cydlynydd y GwyddonLe ar ran Academi Hywel Teifi: "Roedd yn wych cael cyfrannu gwledd o weithgareddau trwy GwyddonLe-T unwaith eto eleni gan arddangos ehangder arbenigeddau gwyddonwyr cyfrwng Cymraeg Prifysgol Abertawe ac ysbrydoli gwyddonwyr y dyfodol."

Uchafbwynt arall i'r Brifysgol yn EisteddfodT oedd dathlu llwyddiant un o'n myfyrwyr, Sioned Medi Howells, a enillodd wobr y Prif Lenor. Mae Sioned, sy'n hanu o Bencader, yn fyfyrwraig trydedd flwyddyn yn astudio BMid Bydwreigiaeth. Ym marn y beirniad a'r awdur Caryl Lewis, mae gwaith Sioned yn "gadael y darllenydd yn ysu am fwy".

## Meistroli'r dadleuon hinsawdd



Gwenno Robinson o Ysgol Gyfun Gŵyr oedd enillydd cystadleuaeth siarad cyhoeddus flynyddol Her Sefydliad Morgan yn EisteddfodT eleni.

Yn ogystal ag ennill £250 i'w hysgol, fe fydd hi'n cael manteisio ar brofiad gwaith o dan ofal Academi Hywel Teifi.

Dan nawdd Sefydliad Astudiaethau Uwch Morgan, y ganolfan ymchwil er cof am y cyn-brif weinidog Rhodri Morgan, denodd y gystadleuaeth ar-lein dros 9,000 o wylwyr.

Fe fu chwech o gystadleuwyr yn cyflwyno dadleuon gwybodus o blaid ac yn erbyn y cwestiwn 'Ai nawr yw'r amser i ddatgan argyfwng hinsawdd?' sef Lleucu a Rhiana o Ysgol Bro Morgannwg, Rhiannon ac Osian o Ysgol Bro Dinefwr, a Cadi a Gwenno o Ysgol Gyfun Gŵyr.

Y beirniaid eleni oedd yr Aelod Seneddol, Ben Lake, a'r arbenigwr newid hinsawdd, Yr Athro Siwan Davies, Pennaeth Ysgol Biowyddorau, Daearyddiaeth a Ffiseg, Prifysgol Abertawe.

"Braint oedd cael beirniadu cystadleuaeth o'r fath safon, ac mi roedd hi'n dipyn o ben tost dewis enillydd," meddai Ben Lake. "Pob clod i'r disgyblion a'u hysgolion, a llongyfarchiadau i'r Academi am drefnu'r gystadleuaeth ac am roi cyfle euraidd iddyn nhw."



# Cydnabod dysg arloeswr ym maes optoelectroneg



Mae un o gymrodyr ymchwil y Gymdeithas Frenhinol yn adran Cemeg y Brifysgol wedi cael ei anrhydeddu am ei waith addawol ym maes optoelectroneg.

Mae Dr Emrys Evans ymhlith enillwyr **Medal Dillwyn Cymdeithas Ddysgedig Cymru** eleni, gwobr sy'n cael ei dyfarnu i gydnabod rhagoriaeth ymchwil yn gynnar mewn gyrfa.

Derbyniodd y fedal yng nghategori STEMM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg a meddygaeth) y Gymdeithas yn eu cyfarfod blynyddol ym mis Mai.

"Mae'r maes dw i'n gweithio ynddo, sef Cemeg Ffisegol, ar y ffin rhwng Cemeg a Ffiseg," esboniodd. "Dw i'n ymchwilio i ddeunyddiau moleciwlaidd a'u priodweddau electronig, magnetig ac optegol, ac mae fy ngwaith yn canolbwyntio ar sut mae'r deunyddiau hyn yn rhyngweithio â golau.

"Dw i'n archwilio sut mae goresgyn terfynau effeithlon-rwydd mewn optoelectroneg a chynhyrchu golau mewn modd mwy ynni-effeithlon.

"Wrth edrych i'r dyfodol dw i'n edrych ymlaen at y cyfleoedd i'r deunyddiau hyn rydym yn eu datblygu yn fy labordy fod yn sail i dechnolegau newydd."

Ar ôl blynyddoedd ym mhrifysgolion Rhydychen a Chaergaint, dychwelodd i'w ddinas enedigol y llynedd i arwain ymchwil yn y Brifysgol ar 'Ynni radical a rheoli troelli mewn electroneg organig'.

"A minnau wedi cael fy magu yn Abertawe roedd yn wych cael dychwelyd i wneud fy ngwaith ymchwil yng Nghymru. Dw i wrth fy modd i dderbyn y fedal hon."

# Y Gymraeg ar gynnydd mewn gofal ac iechyd

Bydd mwy o gyfleoedd nag erioed i feddygon, bydwragedd, parafeddygon a fferyllwyr y dyfodol astudio'u pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe.

Ym maes **Gwyddor Barafeddygol**, bydd myfyrwyr Cymraeg yn cael eu hyfforddi gan Peter Jones, parafeddyg a thiwtor clinigol gyda mwy na 20 mlynedd o brofiad gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Mewn **Bydwreigiaeth**, mae penodi Sharon Jones i gydweithio ag Anneka Bell yn golygu y bydd y myfyrwyr yn elwa ar arbenigedd dwy fydwraig brofiadol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fe fydd cefnogaeth i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn rhan greiddiol o radd uwch mewn **Fferylliaeth** - fe fydd y cwrs MPharm yn dechrau ym mis Hydref.

Ym maes **Seicoleg**, fe fydd 40 credyd ar gael trwy'r Gymraeg ym mhob blwyddyn o hyn ymlaen dan arweiniad Dr Kyle Jones.

Parhau i fynd o nerth i nerth mae'r ddarpariaeth Gymraeg ar y cwrs **Meddygaeth i Raddedigion** gyda phenodi Dr Angharad Wyn, meddyg teulu dan hyfforddiant yn Sir Gaerfyrddin yn Addysgwr Meddygaeth Deuluol, a Dr Lauren Blake yn Gyfarwyddwr Darpariaeth Addysg Gymraeg ac Iechyd Gwledig ac Anghysbell mewn Addysg Feddygol.



# Arddangosfa newydd am fywyd Richard Burton

Mae cyfle i ddysgu mwy am fywyd yr actor byd-enwog Richard Burton mewn arddangosfa sydd ymlaen yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd ar hyn o bryd.

Partneriaeth rhwng yr Amgueddfa a Phrifysgol Abertawe yw **Bywyd Richard Burton**, sy'n adrodd hanes rhyfeddol sut y daeth Richard Jenkins, y crwt o Bont-rhyd-y-fen a Thai-bach, Port Talbot, i fod yn Richard Burton, y seren ryngwladol ar lwyfan ac ar y sgrîn.

Mae'n cynnwys dyddiaduron, dogfennau a gwrthrychau personol Richard Burton, a gaiff eu harddangos i'r cyhoedd am y tro cyntaf erioed. Mae'r eitemau ar fenthyg i'r Amgueddfa gan Archifau Richard Burton, Prifysgol Abertawe.

Ymysg uchafbwyntiau eraill sydd ar fenthyg ar gyfer yr arddangosfa mae rhai o wisgoedd llwyfan Richard Burton o'r perfformiadau Shakespeare fu'n sbardun i'w yrfa, a gwisgoedd o *Cleopatra*, y ffilm Hollywood a newidiodd ei fywyd.

I gyd-fynd â'r arddangosfa ffisegol ceir arddangosfa ddigidol hefyd ar wefan yr Amgueddfa, sy'n cael ei diweddaru yn rheolaidd gyda straeon allweddol ac eitemau. Dyma arwydd o newid yn y modd y bydd yr Amgueddfa yn mynd i'r afael ag arddangosfeydd y dyfodol, gyda'r gobaith o adeiladu ar ei chynnwys digidol.

"Dyma'r arddangosfa gyntaf i archwilio ei fywyd yn llawn a rhannu sut y dyrchafwyd bachgen ifanc o gefndir gwerinol yn ne Cymru i ennill ei le fel un o'r Cymry enwocaf erioed," meddai Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru, David Anderson.

Nododd yr Athro Daniel G. Williams, Cyfarwyddwr Canolfan Richard Burton, "Bu'n anrhydedd cael gweithio gyda'r Amgueddfa Genedlaethol ar lunio'r arddangosfa. Rydym yn hen gyfarwydd â'r stori am y Cymro galluog yn gadael ei famwlad i ennill bri ar lwyfannau'r byd. Ond mae'r arddangosfa yn cymhlethu hynny oherwydd yn ogystal â darlunio'i fagwraeth, mae hefyd yn archwilio parhad perthynas Burton â Chymru – perthynas a fu'n ganolog i'r actor drwy gydol ei fywyd.'

"Casgliad Richard Burton yn Abertawe yw'r ffynhonnell fwyaf cynhwysfawr o wybodaeth wreiddiol ynglŷn â bywyd a gwaith Richard Burton," esboniodd yr Athro Martin Stringer, Dirprwy Is-ganghellor Prifysgol Abertawe. "Mae Prifysgol Abertawe yn falch o fod wedi gallu benthyg eitemau a chyfrannu ein harbenigedd at yr arddangosfa hon, lle caiff ymwelwyr weld mai gŵr diwylliannol, deallusol ac yn llyfrbryf o'i gorun i'w sawdl oedd Richard Burton."



© Amgueddfa Cymru - National Museum Wales

# Llais i'n myfyrwyr

## Noddi llwyfan Llais Tafwyl

Wrth i **Tafwyl** ddathlu ei phen-blwydd yn 15 oed eleni, roedd Academi Hywel Teifi yn falch o gael cyfrannu unwaith eto at ei llwyddiant.

Trwy nawdd yr Academi i lwyfan **Llais** yr ŵyl, cafodd cyfres o ddeg o wahanol ddigwyddiadau llenyddol eu cynnal ar-lein i bobl o bob oed yn ystod Wythnos Tafwyl, 9 -16 Mai 2021. Ac roedd dwy sesiwn wedi eu trefnu gan yr Academi ei hun.



Yn **Yr Actor a'i Stori**, bu'r actor Andrew Teilo yn trafod ei awydd i droi'n awdur a'r modd y lluniodd gasgliad o straeon byrion ar gyfer ennill gradd MA yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe. Mewn sgwrs â'i diwtor, yr Athro Tudur Hallam, fe fu'n sôn am ei daith greadigol i fyd y stori fer a chyflwyno ambell gymeriad a stori newydd.

Yn y sesiwn **Hanes Cymry**, fe fu Dr Simon Brooks o Ysgol Reolaeth y Brifysgol yn cyflwyno ei gyfrol newydd *Hanes Cymry: Lleiafrifoedd Ethnig a'r Gwareiddiad Cymraeg*, a gafodd ei chyhoeddi gan Wasg Prifysgol Cymru ym mis Mehefin. Dyma'r gyfrol gyntaf am hanes lleiafrifoedd ethnig yn y Gymru Gymraeg ac mae'n ffrwyth ymchwil blynyddoedd.

Y nod oedd trafod lle diwylliannau eraill o fewn y diwylliant Cymraeg, meddai, wrth sgwrsio gyda'r arbenigwr ar ieithoedd lleiafrifol, amlddiwylliannedd a dinasyddiaeth, Dr Gwennan Higham o Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe.

"Yr hyn dw i'n ei ddangos ydi bod y Gymru Cymraeg bob amser wedi bod yn aml-ethnig, bod ein diwylliant i raddau wedi deillio o gyfuniad o ddiwylliant Lladinaidd y Rhufeiniaid ar y naill law a'r diwylliant Brythonig ar y llaw arall. Dros y canrifoedd mae'r diwylliant hwnnw wedi cynnwys cymunedau Roma, Gwyddelig ac Iddewig ymhlith eraill."

Meddai Lynsey Thomas, Rheolwr Marchnata a Hyrwyddo Academi Hywel Teifi: "Mae Tafwyl yn ŵyl arbennig ar gyfer hybu'r iaith ac i ddathlu'n Cymreictod, ac mae'n fraint cael llwyfan yn yr ŵyl i rannu gwaith ac arbenigedd myfyrwyr, ysgolheigion, cyn-fyfyrwyr a chyfeillion disglair Prifysgol Abertawe."

## Swyddog Materion Cymraeg yn troi at arwain yr Undeb

Mae cael ei hethol yn Llywydd Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Abertawe yn goron ar flynyddoedd o weithgarwch diflino dros y Gymraeg i gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Rhydywaun.



Katie Phillips, sy'n wreiddiol o Ferthyr, oedd swyddog llawn-amser Materion Cymraeg yr Undeb dros y flwyddyn ddiwethaf ar ôl graddio mewn Daearyddiaeth y llynedd.

Roedd hynny'n cynnwys mynnu chwarae teg i fyfyrwyr Cymraeg, hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant, sicrhau dwyieithrwydd drwy'r holl Brifysgol a threfnu pob mathau o weithgareddau cymdeithasol i fyfyrwyr o fewn cyfyngiadau Covid.

"Dw i wrth fy modd yn gallu defnyddio fy mhrofiad a'm llwyfan fel Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe i weithredu fy angerdd dros yr iaith a'r diwylliant Cymraeg," meddai.

"Ar ôl blwyddyn anodd i fyfyrwyr, dw i a gweddill tîm yr Undeb yn llawn brwdfrydedd i ddefnyddio ein hamser yn ein swyddi i roi'r flwyddyn orau bosibl i'n haelodau."

## Sŵn y Stiwdants yn tynnu sylw at y Coleg Cymraeg

Denu myfyrwyr i astudio trwy'r Gymraeg mewn prifysgolion a manteisio ar gyfleoedd trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw nod podlediad sy'n cael ei greu a'i gynhyrchu gan fyfyrwyr.

"Hwyl a rhoi'r byd yn ei le!" yw'r disgrifiad swyddogol o Sŵn y Stiwdants, sydd i'w glywed ar Spotify, lle mae myfyrwyr Cymraeg yn rhannu eu profiadau o fywyd prifysgol.

Mae nhw'n lledaenu'r neges am fanteision addysg Gymraeg ar wefan, a thudalennau Facebook ac YouTube y Coleg Cymraeg ac ar dudalennau Instagram a Twitter 'Dy Ddyfodol Di'.

Eleni penodwyd pump o fyfyrwyr Prifysgol Abertawe i chwarae rhan amlwg ynddo a hwythau ymhlith 26 o lysgenhadon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sef:

- **Elen Wyn Jones (Cymraeg, Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau)**
- **Emily Louise Evans (Cymraeg)**
- **Alaw Grug Harries (y Gyfraith a Throseddeg)**
- **Lois Medi Williams (Nyrsio Oedolion)**
- **Stuart Michael John Denman (Nyrsio Oedolion)**

"Mae Sŵn y Stiwdants wedi bod yn gyfle gwych dros y flwyddyn ddiwethaf i fyfyrwyr Abertawe fod yn rhan o ymgyrch genedlaethol ac i amlygu sut brofiad yw hi i fod yn fyfyriwr mewn prifysgol yng Nghymru. Er y sefyllfa anarferol mae nhw wedi gwneud y mwyaf o bob cyfle gan ddal ati i hyrwyddo'r cyfleoedd a'r manteision sy'n dod wrth astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a hynny mewn ffyrdd ychydig yn fwy creadigol na'r arfer!" meddai Lois Wyn Griffiths, Swyddog Cangen y Coleg ym Mhrifysgol Abertawe.




## Dwy o arloeswyr y byd darlledu Cymraeg yn rhannu eu profiadau

Fe fu dwy o arloeswyr y byd darlledu Cymraeg yn rhannu eu profiadau mewn sgwrs a gafodd ei threfnu gan Academi Hywel Teifi i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Merched.



Y newyddiadurwr Beti George a phennaeth cwmni cyfryngau Telesgop, Elin Rhys, oedd gwesteion y sgwrs 'Merched yn Bennaf' a'r ddwy'n cael eu holi gan Dr Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr yr Academi ac arbenigwr ar hanes y cyfryngau.

"Dyma ddwy sydd wedi torri eu cwys eu hunain yn niwydiant cyfryngau Cymru, yn codi i'r brig mewn meysydd sydd dros y blynyddoedd wedi bod yn diriogaeth dynion, sef newyddion a materion cyfoes a gwyddoniaeth," meddai Gwenno Ffrancon.

Mae gan y ddwy gysylltiad ag Abertawe hefyd, gyda Beti George wedi dechrau'n ohebydd yno ac Elin Rhys yn gyn-fyfyr-wraig yn y Brifysgol, wedi symud ei chwmni i'r ddinas a bellach yn aelod o Gyngor y Brifysgol.


"Mae'r ddwy, sydd ymysg ffigurau mwyaf dylanwadol y diwydiant, wedi bod yn gyfeillion clos i'r Academi a Phrifysgol Abertawe ar hyd y blynyddoedd," meddai Gwenno Ffrancon.

"Fe fuon nhw'n ymdrin ag amrywiaeth helaeth o bynciau – gan gynnwys gwahaniaethau mewn cyflogau, cyfleoedd yn cael eu cynnig ar sail rhyw, a'r prinder menywod hŷn sydd i'w gweld a'u clywed ar y cyfryngau.


"Rydym yn hynod o ddiolchgar iddyn nhw am drafod eu profiadau o weithio yn y diwydiant a'u canfyddiadau o'r sector heddiw ac o'r profiadau y mae menywod yn eu cael."

Mae modd gwylio'r sgwrs eto ar wefan Academi Hywel Teifi.

## Dathlu gwaith dehonglwr mawr Cymreictod




© Hay Festival a Tom Bradshaw




Ymysg sesiynau Prifysgol Abertawe yng Ngŵyl y Gelli eleni roedd sgwrs i lansio argraffiad newydd o ysgrifau ysgolhaig a gafodd ddylanwad mawr ar ein dealltwriaeth o hunaniaeth Gymreig.

Caiff y gyfrol, **Who Speaks for Wales? Nation, Culture, Identity** ei chyhoeddi i nodi canmlwyddiant geni'r awdur, Raymond Williams yn y Pandy, Sir Fynwy, un o ysgolheigion, meddylwyr a beirniaid llenyddol mwya'i oes.

I lansio'r gyfrol, fe fu'r Athro Daniel Williams o Ganolfan Llên a Iaith Saesneg Cymru (CREW) y Brifysgol, yn trafod bywyd a gwaith yr ysgolhaig gyda'r actor Michael Sheen a chyn-arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

Gwyliodd dros 2,000 o bobl y drafodaeth fywiog ar-lein, ac mae'r sesiwn ar gael i'w gwylio ar alw ar blatfform "Hay Player".

"Rhoddodd Raymond Williams yr hawl i mi fod yn Gymro," meddai Michael Sheen. "Roedd yn mynegi'n groyw yr hyn yr oeddwn i'n ei deimlo wrth archwilio ac, yn wir, ddarganfod fy Nghymreictod."

Cafodd pwyslais Raymond Williams ar gymuned effaith ar wleidyddiaeth Leanne Wood: "Cymdeithas yw hanfod pob gweithred wleidyddol i Raymond Williams," meddai. "Rhaid dechrau gyda'r bobl a chreu o'r gwaelod i fyny."

Dywedodd yr Athro Daniel Williams: "Mae cyfraniad Raymond Williams i'n dealltwriaeth o lenyddiaeth, diwylliant a chenedlaetholdeb yn unigryw ac roedd clywed am ei ddylanwad ar Michael Sheen a Leanne Wood – dau o Gymry radical ein cyfnod – yn tystio i berthnasedd ei waith i ni heddiw. Rwy'n gobeithio y bydd y golygiad newydd o *Who Speaks for Wales?* yn ysbrydoli y genhedlaeth nesaf o feirniaid ac ymgyrchwyr yng Nghymru a thu hwnt."

Mae gan Brifysgol Abertawe archif o bapurau Raymond Williams sy'n denu ysgolheigion o bedwar ban byd.




## Gofalu am fuddiannau myfyrwyr Cymraeg

Mae'r Swyddog Materion Cymraeg newydd yn rhagweld dyfodol disglair i'r Brifysgol ac i'r Gymraeg yn ei gweithgareddau.

Nod Gwern Dafis, o Dalgarreg yng Ngheredigion yw arwain y ffordd a gweithio at sefyllfa pan fydd yr iaith yn cael ei chymryd yn rhan annatod o fywydau pawb yng Nghymru, gan gynnwys myfyrwyr Abertawe.

"Gan fod Abertawe yn brifysgol sydd yng Nghymru, mae'n bwysig bod diwylliant Cymreig yn rhan sylfaenol o brofiad pob myfyriwr yma," meddai Gwern, a fu'n Llywydd y Gymdeithas Gymraeg dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

"Gobeithio y bydd cyfle i gynnal digwyddiadau i ddathlu diwrnodau cenedlaethol Cymreig yn agored i bawb, i godi ymwybyddiaeth a balchder yn ein hanes a'n traddodiadau … a dangos hefyd bod y Gymraeg yn iaith fodern gyda diwylliant byw a chyfoes."

### Llais ym maes addysg

Ar ôl blwyddyn o wasanaethu fel Swyddog Menywod rhan-amser, mae Carys Bethan Jones o Gaerffili ar fin cychwyn ar ei gwaith yn Swyddog Addysg llawn-amser i Undeb y Myfyrwyr.

Hi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod gan bob myfyriwr lais yn eu haddysg, gan gydweithio â holl gyfadrannau'r Brifysgol, ynghyd â 350 o gynrychiolwyr pynciau.

"Mae'r Gymraeg wedi chwarae rhan enfawr yn fy addysg ers fy nyddiau ysgol," meddai'r cyn-ddisgybl o Ysgol Cwm Rhymni sydd bellach yn astudio gradd Meistr mewn Troseddeg.

"Yn fy rôl fel Swyddog Addysg dw i wrth fy modd o allu gwella'r ddarpariaeth i siaradwyr Cymraeg, yn ogystal ag annog pob myfyriwr i chwarae eu rhan yn y wlad ryfeddol hon sy'n gartref inni.

"Dw i wedi cael fy ysbrydoli gan fy amser yn fyfyriwr i helpu eraill fanteisio i'r eithaf ar eu profiad yn y Brifysgol!"



# Arwr Tawel y cae rygbi a wardiau geni

Mae enillydd un o Wobrau Personoliaeth Chwaraeon BBC Cymru eleni yn treulio mwy o amser bellach mewn wardiau geni nag ar y cae rygbi.

Mae Tirion Thomas, a ddaeth yn fuddugol yng nghategori'r Arwr Tawel, newydd gwblhau blwyddyn gyntaf ei chwrs bydwreigiaeth ym Mhrifysgol Abertawe.

Enillodd y ferch 20 oed ei gwobr am ei hymroddiad wrth hyfforddi merched dan 13 oed, dan 15 oed a than 18 oed Y Bala, yn ogystal â bod yn gapten ar dîm dan 18 Clwb Rygbi Gogledd Cymru.

Mae hi hefyd yn ffigwr allweddol o fewn Rhaglen Llysgenhadon Ifanc Cymru, a gaiff ei ariannu gan y Loteri Genedlaethol.

"Dw i wedi lleihau fy ymrwymiadau rygbi oherwydd fy mod i'n gwybod mai dyma'r amser i ymroi i' ngyrfa hirdymor," meddai. "Er hyn, mae'r gamp yn rhan bwysig o 'mywyd i o hyd, yn enwedig yn ystod y pandemig.

"Mae'n fy ngalluogi i wneud yr hyn dw i'n ei fwynhau yn ogystal â hybu fy iechyd meddwl – sy'n bwysig iawn wrth gwblhau cwrs trwm sy'n cynnig heriau unigryw. Mae rygbi'n hollbwysig i mi – fel chwaraewr, hyfforddwr neu gefnogwr – ac rwy'n teimlo bod y gymuned rygbi'n un teulu mawr sy'n rhoi rhwydwaith cymorth gwych i rywun."

Dywedodd Susie Moore, Pennaeth Addysg Bydwreigiaeth y Brifysgol ei bod wrth ei bodd o glywed am lwyddiant Tirion.

"Mae'r ffaith ei bod wedi dangos cymaint o ymrwymiad ac ymroddiad i rywbeth sy'n bwysig iddi yn dweud cyfrolau amdani," meddai.

Oherwydd ei gwaith ai pharodrwydd i gefnogi eraill i fanteisio ar gyfleoedd mewn rygbi, mae Tirion bellach wedi'i henwebu am Wobr y Loteri Genedlaethol 2021 yn y categori Chwaraeon. Mae'r gwobrau yn dathlu unigolion a grwpiau ysbrydoledig sy'n cyflawni pethau anhygoel o fewn eu cymuned a bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi yn yr Hydref.

# Myfyrwyr meddygaeth yn bachu'r cyfle i ddysgu Cymraeg

Mae mwy nag erioed o fyfyrwyr meddygol Prifysgol Abertawe yn manteisio ar gyfle i ddysgu Cymraeg, yn sgil cwrs newydd i ddechreuwyr dan adain Academi Hywel Teifi.

Mae 62 o fyfyrwyr y cwrs Meddygaeth i Raddedigion wedi bod yn dilyn gwersi wythnosol trwy ddosbarthiadau rhithiol, gan ddysgu geirfa a brawddegau sy'n berthnasol i'r byd meddygol. Yr hyn sy'n eu cymell yw gwybod y byddant, o ddysgu rhywfaint o Gymraeg, yn gallu darparu gwell gofal i gleifion Cymraeg eu hiaith.

"Er nad yw pob myfyriwr yn disgwyl gweithio yng Nghymru yn y dyfodol, maen nhw'n gwerthfawrogi pwysigrwydd dysgu ychydig o Gymraeg i'w defnyddio wrth hyfforddi mewn ysbytai yng Nghymru," meddai Emyr Jones, tiwtor Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe. "Bydd hyd yn oed defnyddio ymadroddion syml yn gwneud byd o wahaniaeth i helpu cleifion i ymlacio."

Mae'r myfyrwyr yn dilyn esiampl yr Athro Kamila Hawthorne, Pennaeth Meddygaeth i Raddedigion yn y Brifysgol, sydd hefyd yn dysgu Cymraeg.

"Wrth gael eu croesawu i Gymru, mae ein myfyrwyr meddygaeth yn Abertawe wedi llwyr gofleidio byw ac astudio yng Nghymru," meddai. "Maen nhw wedi dangos gwir frwdfrydedd i ddysgu Cymraeg ac i gymathu gyda phobl Cymru. Byddai'n hyfryd eu gweld yn aros yma!"



## A dyma farn y myfyrwyr:

### Giorgia, o'r Eidal

"Dw i eisiau dysgu Cymraeg achos dw i'n meddwl bydd dysgu geiriau sylfaenol Cymraeg yn fy helpu i greu perthynas gyda fy nghleifion pan fyddaf ar leoliadau clinigol. Er na fyddaf yn aros yng Nghymru drwy gydol fy ngyrfa, mae'n gyfle gwych i mi ymestyn fy ngorwelion diwylliannol. Diolch am y cyfle!"

### Ruchika, o India

"Fe wnes i ymuno â'r cwrs dysgu Cymraeg er mwyn cael gwybodaeth sylfaenol a gallu siarad yn hyderus â chleifion fel myfyrwraig ac fel meddyg yn nes ymlaen. Dw i yn gallu defnyddio cyfarchion Cymraeg gyda ffrindiau. Mae'n rhoi gwên ar eu hwynebau!"

### Tanvi, o Seland Newydd

"Pan benderfynais symud i Gymru, un o fy mhrif flaenoriaethau oedd dysgu Cymraeg, yn enwedig o ystyried y byddwn yn gweithio mewn cymunedau ble mai'r Gymraeg fyddai iaith gyntaf nifer o bobl... dw i wedi mwynhau'r gwersi Cymraeg yn fawr hyd yma ac yn edrych ymlaen at yr wythnosau nesaf."

### Francis, o Port Talbot

"Fe welais glaf yn dioddef o ddeliriwm, ac roedd wedi cynhyrfu tipyn. Doedd y staff ddim yn gallu ei thawelu wrth siarad Saesneg ond yn syth ar ôl dweud ambell frawddeg yn ei hiaith gyntaf, Cymraeg, dechreuodd ymateb ac roedd hyn yn help i'w chysuro a'i chefnogi."

### Catrin, o Sgeti, Abertawe

"Fy mwriad yw gweithio yng Nghymru, felly dw i'n gobeithio gallu siarad ychydig o Gymraeg gyda chleifion sy'n siaradwyr Cymraeg er mwyn iddyn nhw deimlo'n fwy cartrefol."

### Constantinos, o Gyprus

"Mae dysgu Cymraeg wedi rhoi pwrpas i fi. Fel meddyg y dyfodol, mae gofyn arnaf i wella fy sgiliau cyfathrebu yn ystod fy hyfforddiant meddygol. Mae'r cwrs hwn wedi caniatáu i fi wneud hynny a nawr dw i'n meddwl y bydda i'n gallu rhyngweithio gydag ystod ehangach o gleifion a chydweithwyr. Dw i'n teimlo bod y cwrs wedi fy ngalluogi i ddangos parch yn ôl i wlad a diwylliant sydd wedi fy natblygu i'n academaidd ac yn bersonol dros y tair blynedd ddiwethaf a bydd yn parhau i wneud hynny am flynyddoedd eto."